**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 554 (Cy.57)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995, fel y'u diwygiwyd eisoes ("y prif Reoliadau") sy'n gymwys i Brydain Fawr gyfan.

**2**. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith Cyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 2003/52/EC(**a**) yn diwygio Cyfarwyddeb 95/2/EC(**b**) o ran amodau defnydd ychwanegyn bwyd E425 Konjac.

**3**. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu i E425 Konjac gael ei ddefnyddio mewn Bwydydd yn gyffredinol (ac eithrio mewn rhai bwydydd a bennir yn y prif Reoliadau) ond nid mewn cyffaith jeli. Mae cyffaith jeli yn cynnwys teisennau cwpan jeli.

**4**. Nid oes asesiad o effaith y rheoliadau wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan na fydd gan yr offeryn effaith ar gostau busnes. Mae nodyn trosi sy'n nodi sut y mae prif elfennau Cyfarwyddeb 2003/52 yn cael eu trosi yn y rheoliadau hyn wedi'i baratoi a'i osod yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11 Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

(a) OJ Rhif L178, 17.7.2003, t.23.

(b) OJ Rhif L61, 18.3.1995, t.1.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 554 (W.57)

# FOOD, WALES

## The Miscellaneous Food Additives (Amendment) (Wales) Regulations 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations, which apply to Wales only, amend the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995, as already amended ("the principal Regulations") which apply to the whole of Great Britain.

**2**. These Regulations implement European Parliament and Council Directive 2003/52/EC(**a**) amending Directive 95/2/EC(**b**) as regards the conditions of use for a food additive E425 Konjac.

**3**. These Regulations provide for E425 Konjac to be used in Foodstuffs in general (except in certain foods as are specified in the principal Regulations) but not in jelly confectionery. Jelly confectionery includes jelly mini-cups.

**4**. A regulatory impact assessment has not been prepared in respect of these Regulations as the instrument will have no effect on the costs of business. A transposition note setting out how the main elements of Directive 2003/52 are transposed in these regulations has been prepared and placed in the library of the National Assembly for Wales. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

(a) OJ No. L178, 17.7.2003, p.23.

(b) OJ No. L61, 18.3.1995, p.1.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 554 (Cy.57)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *2 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mawrth 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(a), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (**a**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad(**b**) ac wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ar faterion diogelwch bwyd(**c**) ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Teitl, cychwyn a chymhwyso**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2004, byddant yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 5 Mawrth 2004.

**Diwygiad o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995**

**2**. Yn Atodlen 3 i Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**ch**), yn y cofnod am E425 yn lle'r geiriau yn nhrydedd golofn y cofnod hwnnw, rhodder y geiriau "Foods in general (except those referred to in Schedules 6, 7 and 8, and jelly confectionery, including jelly mini-cups)".

(a) 1990 p.16.

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(c) OJ Rhif L31, 1.2.2002, c.1.

(ch) O.S. 1995/3187, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/1413, O.S. 1999/1136, O.S. 2001/1787 (Cy.128), O.S. 2002/329 (Cy.42) ac O.S. 2003/945 (Cy.126).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 554 (W.57)

# FOOD, WALES

## The Miscellaneous Food Additives (Amendment) (Wales) Regulations 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *2nd March 2004* |
| *Coming into force* | *5th March 2004* |

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(a), 17(1), 26(1) and (3) and 48(1) of, and paragraph 1 of Schedule 1 to, the Food Safety Act 1990(**a**) and now vested in the Assembly(**b**) and having had regard in accordance with section 48(4A) of that Act, to relevant advice given by the Food Standards Agency and after consultation as required by article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**c**) and in accordance with section 48(4) and (4B) of that Act, makes the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**. These Regulations may be cited as the Miscellaneous Food Additives (Amendment) (Wales) Regulations 2004, shall apply to Wales only and shall come into force on 5th March 2004.

**Amendment of the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995**

**2**. In Schedule 3 to the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995(**d**), in the entry for E425 for the words in the third column of that entry, there shall be substituted the words "Foods in general (except those referred to in Schedules 6, 7 and 8, and jelly confectionery, including jelly mini-cups)".

(a) 1990 c.16.

(b) Functions of "the Ministers" so far as exercisable in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the Food Standards Act 1999 (1999 c.28).

(c) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.

(d) S.I. 1995/3187, amended by S.I. 1997/1413, S.I. 1999/1136, S.I. 2001/1787 (W.128), S.I. 2002/329 (W.42) and S.I. 2003/945 (W.126).

**Diwygiadau canlyniadol**

**3**.-(1) Hepgorir paragraff (2) o reoliad 3 (diwygiadau canlyniadol) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2003(**a**).

(2) Yn y Rheoliadau a restrir isod, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, mae cyfeiriadau at Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995 i'w dehongli fel cyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) 1997(**b**), Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) 1999(**c**), Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001(**ch**), Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001(**d**) Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001(**dd**), Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001(**e**), Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2002(**f**), Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2002(**ff**), Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2003(**g**), Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003(**ng**), Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003(**h**), Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003(**i**), Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Powdr (Cymru) 2003(**j**), Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003(**l**), Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003(**ll**), Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2004(**m**) a'r Rheoliadau hyn:

Rheoliadau Hydrocarbonau Mwynau mewn bwyd 1966(**n**);

(a) O.S. 2003/945 (Cy.126).
(b) O.S. 1997/1413.
(c) O.S. 1999/1136.
(ch) O.S. 2001/1440 (Cy.102).
(d) O.S. 2001/1787 (Cy.128).
(dd) O.S. 2001/2679 (Cy.220).
(e) O.S. 2001/3909 (Cy.321).
(f) O.S. 2002/329 (Cy.42).
(ff) O.S. 2002/330 (Cy.43).
(g) O.S. 2003/945 (Cy.126).
(ng) O.S. 2003/1713 (Cy.181).
(h) O.S. 2003/3047 (Cy.290).
(i) O.S. 2003/3041 (Cy.286).
(j) O.S. 2003/3053 (Cy.291).
(l) O.S. 2003/3037 (Cy.285).
(ll) O.S. 2003/3044 (Cy.288).
(m) O.S. 2004/553 (Cy.56)
(n) O.S. 1966/1073; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.

**Consequential amendments**

**3**.-(1) Paragraph (2) of regulation 3 (consequential amendments) of the Miscellaneous Food Additives (Amendment) (Wales) Regulations 2003(**a**) shall be omitted.

(2) In the Regulations listed below, in so far as they apply to Wales, references to the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995 shall be construed as references to those Regulations as amended by the Miscellaneous Food Additives (Amendment) Regulations 1997(**b**), the Miscellaneous Food Additives (Amendment) Regulations 1999(**c**), the Coffee Extracts and Chicory Extracts (Wales) Regulations 2001(**d**), the Miscellaneous Food Additives (Amendment) (Wales) Regulations 2001(**e**) the Sweeteners in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2001(**f**), the Colours in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2001(**g**), the Miscellaneous Food Additives (Amendment) (Wales) Regulations 2002(**h**), the Sweeteners in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2002(**i**), the Miscellaneous Food Additives (Amendment) (Wales) Regulations 2003(**j**), the Sweeteners in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2003(**k**), the Specified Sugar Products (Wales) Regulations 2003(**l**), the Fruit Juices and Fruit Nectars (Wales) Regulations 2003(**m**), the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2003(**n**), the Cocoa and Chocolate Products (Wales) Regulations 2003(**o**), the Honey (Wales) Regulations 2003(**p**), the Jam and Similar Products (Wales) Regulations 2004(**q**) and these Regulations:

the Mineral Hydrocarbons in Food Regulations 1966(**r**);

(a) S.I. 2003/945 (W.126).
(b) S.I. 1997/1413.
(c) S.I. 1999/1136.
(d) S.I. 2001/1440 (W.102).
(e) S.I. 2001/1787 (W.128).
(f) S.I. 2001/2679 (W.220).
(g) S.I. 2001/3909 (W.321).
(h) S.I. 2002/329 (W.42).
(i) S.I. 2002/330 (W.43).
(j) S.I. 2003/945 (W.126).
(k) S.I. 2003/1713 (W.181).
(l) S.I. 2003/3047 (W.290).
(m) S.I. 2003/3041 (W.286).
(n) S.I. 2003/3053 (W.291).
(o) S.I. 2003/3037 (W.285).
(p) S.I. 2003/3044 (W.288).
(q) S.I. 2004/553 (W.56)
(r) S.I. 1966/1073; the relevant amending instrument is S.I. 1995/3187.

Rheoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992(**a**);

Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**b**);

Rheoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984(**c**).

the Food Additives Labelling Regulations 1992(**a**);

the Food Labelling Regulations 1996(**b**);

the Meat Products and Spreadable Fish Products Regulations 1984(**c**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**ch**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**d**).

2 Mawrth 2004

2nd March 2004

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 1992/1978; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.

(b) O.S. 1996/1499; y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

(c) O.S. 1984/1566; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.

(ch) 1998 p.38.

(a) S.I. 1992/1978; the relevant amending instrument is S.I. 1995/3187.

(b) S.I. 1996/1499; to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(c) S.I. 1984/1566; the relevant amending instrument is S.I. 1995/3187.

(d) 1998 c.38.

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090877-5

9 780110 908779

**£3.00**

W25/3/04 ON